


Opera gan Wolfgang Amadeus Mozart yw **The Magic Flute** ac mi berfformiwyd am y tro cyntaf yn 1791. Mae'n stori dylwyth teg gyda themâu megis y da yn erbyn y drwg, serch a chyfeillgarwch, golau a thywyllwch, a hyd heddiw mae'n un o'r operâu sy'n cael ei pherfformio amlaf. I ddysgu mwy am y stori, gwylwch **Chwarae Opera** a defnyddiwch ein hadnoddau i greu propiau eich hun ar thema *The Magic Flute* yn eich cartref.



Propiau haul a lleuad!

Crëwch eich propiau haul a lleuad yn barod ar gyfer eich perfformiad nesaf. Wedi'i ysbrydoli gan *The Magic Flute*, crëwch eich lleuad, haul a seren liwgar a disglair eich hun i'w hongian a disgleirio gartref.



Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur argraffu
- Siswrn
- Cerdyn tenau
- Glud
- Papur lliw golau'r haul (paent neu lliwiwch bapur os hoffech wneud hynny)
- Ffoil neu baent llwyd a gliter
- Llinyn, gwlân neu ruban
- Tâp gludiog

Argraffwch y ffeiliau ar gyfer yr haul a'r lleuad.

Gludwch y stensiliau i'r darnau o gerdyn tenau. Efallai gallech ddefnyddio bocs grawnfwyd gwag? Gofynnwch i oedolyn eich helpu.

Pan fydd y glud yn sych, torrwch o amgylch yr haul, y lleuad, a'r seren fechan sydd drws nesaf i'r lleuad.

Canolbwyntiwch ar yr haul yn gyntaf. Torrwch ddarnau hirgul allan o bapur melyn neu aur. Os nad oes gennych bapur o'r fath, paentiwch neu lliwiwch bapur plaen.


Defnyddiwch tâp i glymu'r darnau hirgul o bapur i gefn yr haul, fel eu

bod nhw'n hongian fel pelydrau'r haul.

Yna, gorchuddiwch y seren fechan mewn ffoil. Neu, defnyddiwch baent llwyd neu binnau a phensiliau i liwio'r seren, ac ychwanegwch gliter, neu unrhyw beth disglair. Ceisiwch hongian y seren o gefn rhan uchaf y lleuad gan ddefnyddio llinyn, gwlân neu ruban.

Penderfynwch a ydych eisiau hongian eich haul a lleuad gyda llinyn, neu ddefnyddio tâp i'w gysylltu at llwy bren neu diwb cardfwrdd hir i'w dal nhw i fyny.

Mae eich propiau haul a lleuad yn barod ar gyfer eich perfformiad nesaf!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!